31 Hydref 2025

**Y cais**

Diolch i chi am eich ceisiadau a ddaeth i law ar 08 Hydref 2025. Rydym yn crynhoi isod yr wybodaeth yr oeddech yn gofyn amdani, sef:

- Cais am ryddhau copi o *Gynllun Gweithredu Môn a Menai* a gyfeiriwyd ato ar dudalen 42 o'r adroddiad: *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith*
- Cais am gopi o'r datganiad cabinet y cyfeirir ato yn nhroednodyn 28 yr adroddiad: *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith*

**ATISN 26235 – Ein Hymateb**

Gweler y copi a'r linc i'r archif lle mae *Cynllun Gweithredu Môn a Menai* yn cael ei gadw, ynghyd â'r Datganiad Ysgrifenedig gan *Leighton Andrews AC, Dirprwy Weinidog dros Adfywio* ar y pryd, i gyd-fynd â chyhoeddi'r cynllun.

**[ARCHIVED CONTENT] Llywodraeth Cymru | Ysgrifenedig - Cynllun Gweithredu Môn a Menai**

Cynllun Gweithredu Mon a Menai.pdf

Datganiad Ysgrifenedig - Cynllur

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod **ATISN** uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire

SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir